Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 22: 1-19

ADNOD
ALLWEDDOL
Hebreaid 11: 17-19

Astudiaeth 4 Abraham - Yr Her

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Rhufeiniaid 8: 32; Iago 2: 20-24

Mae Abraham yn wynebu prawf mwyaf ei fywyd. Roedd wedi disgwyl mor hir i Isaac gael ei eni, ac yn awr fe ddaeth ei fab yn ganolbwynt prawf Duw arno.

C Llanwch y bylchau yn y swigen eiriau i weld beth roedd Duw yn gofyn i Abraham ei wneud.

"Cymer dy ....., dy unig .....,
yr wyt yn ei ....., a dos i wlad ..... .
Offryma ef yno yn ..... ar y ..... y byddaf yn ei ..... i ti.

3

Roedd aberthu plant yn gyffredin yr adeg honno ymhlith y cenhedloedd paganaidd oedd heb adnabod y gwir Dduw. Mae'n rhaid bod Abraham yn methu â deall pam yr oedd Duw'n gofyn iddo wneud hyn. Pe bai ef yn aberthu Isaac, sut allai addewidion Duw ddod yn wir?

C Rhowch y digwyddiadau isod yn eu trefn gywir trwy eu rhifo o 1 i 5. (adn. 3 a 4)

☐ Cychwynnodd am y lle yr oedd Duw wedi dweud wrtho am fynd iddo.
☐ Ar y trydydd diwrnod fe welodd y lle o bell.
☐ Rhoddodd Abraham gyfrwy ar ei asyn.
☐ Torrodd ddigon o goed ar gyfer y poethoffrwm.
☐ Aeth â dau was gydag ef yn ogystal ag Isaac.

5

C Cwblhewch y Grid Geiriau i ganfod beth a ddigwyddodd nesaf.

1. Dywedodd Abraham ei fod ef ac Isaac yn mynd i _ __ _ _ _.
2. Holodd Isaac _ _ _ roedd yr oen.
3. Daeth Abraham ac Isaac i'r __ _ yr oedd Duw wedi dweud.
4. Dywedodd Abraham y byddai Duw yn _ _ _ _ _ _ _ oen.
5. Roedd Abraham yn mynd i offrymu _ _ _ __offrwm.
6. Roedd Abraham yn fodlon rhoi ei _ _ _ _ fab i Dduw.



Edrychwch ar draws y Grid Geiriau ac ysgrifennwch beth yr oedd Abraham yn barod i'w wneud i Isaac. ..... .

5

C **Beth a ddywedodd angel yr Arglwydd wrth Abraham ar ôl iddo alw arno wrth ei enw?** (a. 12)



1

Roedd Abraham yn barod i roi popeth i Dduw. Roedd yn caru Duw gymaint nes ei fod yn barod hyd yn oed i aberthu ei fab iddo.

C **Beth a gynigiodd Abraham yn lle Isaac?**

1

C **Beth oedd Abraham yn ei gredu? (Hebreaid 11 :19)**

2

C **Pa enw a roddodd ar y lle?**

1

Pan siaradodd angel Duw ag Abraham yr ail waith, fe wnaeth yn gwbl glir iddo y byddai'n derbyn bendith fawr, am ei fod wedi ufuddhau i orchymyn Duw.

Mae'r digwyddiad hwn ym mywyd Abraham yn ddarlun o'r hyn a ddigwyddodd pan roddodd Duw ei Fab, yr Arglwydd Iesu, i farw ar y groes. Nid oedd neb i gymryd ei le ef, felly fe fu farw dros bawb.

C **Ysgrifennwch Rhufeiniaid 8: 32 sy'n egluro hyn**

2

Beth ydych chi wedi'i wneud ynglŷn ag aberth fawr Duw drosoch chi?

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120